CYNGOR TREF
FFESTINIOG
TOWN COUNCIL

**Swyddfa'r Cyngor ● Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog ●Heol Wynne ● Blaenau Ffestiniog ● Gwynedd ● LL41 3UF**

**01766 832 398 clerc @cyngortrefffestiniog.cymru**

COPI DRAFFT

# COFNODION CYFARFOD ARFEROL

# 14eg MAWRTH 2022

**COFNODION CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG**
**A GYNHALIWYD NOS LUN 14eg o FAWRTH 2022**
**AR LEIN AM 7.00 Y.H.**

CADEIRYDD: Cynghorydd: Erwyn Jones

YN BRESENNOL: Cynghorwyr: Alun Jones, Bedwyr Gwilym, Glyn Daniels, Mark Thomas, Rory Francis.

COPI DRAFFT

**11272/03/22 1. YMDDIHEURIADAU**

Cynghorwyr Nathan Jarvis, Ronwen Roberts a Dafydd Dafis.

**11273/03/22 2. DATGAN DIDDORDEB**

**Dim wedi ei ddatgan.**

**11274/03/22 3. MATERION BRYS**

*Materion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys, yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

***Dalier Sylw* *trafodaeth yn unig, ni chaniateir unrhyw benderfyniad ar fater a godwyd yn y fan hyn ond ei raglennu ar gyfer y cyfarfod nesaf.***

Dim.

**11275/03/22 4. Derbyn a chadarnhau Cofnodion Cyfarfod Anarferol 9fed o Chwefror 2022.**

PENDERFYNIAD: Derbyn a Chadarnhau'r Cofnodion gyda'r Cynghorydd Rory Francis yn cynnig a'r Cynghorydd Alun Jones yn eilio.

**11276/03/22 5. Derbyn a chadarnhau Cofnodion Cyfarfod Arferol 14eg o Chwefror 2022.**

Nododd y Cynghorydd Mark Thomas nad oedd y cofnodion yn cynnwys sgwrs rhyngddo a'r Cynghorydd Bedwyr Gwilym wedi ei gofnodi yn llawn, a gofynnir i'r cofnodion cael eu cywiro i gynnwys yr hyn a ddywed y Cynghorydd Bedwyr Gwilym yn y sgwrs.

PENDERFYNIAD: I'r Clerc ychwanegu manylion am sgwrs a nodir i'r uchod i'r cofnodion. Ar sail yr cywiriad hwn, mi wnaeth y Cyngor dderbyn a Chadarnhau'r Cofnodion gyda'r Cynghorydd Alun Jones yn cynnig a'r Cynghorydd Bedwyr Gwilym yn eilio.

**11277/03/22 6. Derbyn a chadarnhau Cofnodion Cyfarfod Anarferol 16eg o Chwefror 2022.**

PENDERFYNIAD: Derbyn a Chadarnhau'r Cofnodion gyda'r Cynghorydd Alun Jones yn cynnig a'r Cynghorydd Bedwyr Gwilym yn eilio.

**11278/03/22 7. Derbyn a chadarnhau Cofnodion Cyfarfod Anarferol 24ain o Chwefror 2022.**

PENDERFYNIAD: Derbyn a Chadarnhau'r Cofnodion gyda'r Cynghorydd Alun Jones yn cynnig a'r Cynghorydd Bedwyr Gwilym yn eilio.

## 11279/03/22 8. CYFRIFON I'W TALU

| Taliadau I'w talu / Payments Due | | 15.02.22-14.03.22 | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfarfod Arferol / Ordinary Meeting 14.03.2022 | | | | | |
| **Cyfrifon 2021-22 (Wedi eu talu / Already Paid)** | | | **Cost** | **Rhif siec/ Chq No** | |
| 19.02.22 | Dwr Cymru | Dwr Y Pafiliwn Medi-Chwef22 | £122.14 | Ar-lein | 1 |
| | | **Cyfanswm / Total** | **£122.14** | | |
| **Cyfrifon 2021-22 (I'w dalu/ To pay)** | | | | | |
| **Dyddiad/Date** | **Cyflenwr / Supplier** | **Disgrifiad / Description** | **Cost** | **Dull talu / payment method** | |
| 28.02.22 | Canolfan Gymdeithasol | Rhent Chwef / Feb Rent 2022 Inv1349 | £ 430.00 | Ar-lein | 2 |
| 28.02.22 | Cricieth Cleaning | Glanhau Chwef/ cleaning for Feb Invno3058 | £ 1,203.53 | Ar-lein | 3 |
| 05.03.22 | Zoe Pritchard (Clerc) | Taliad Zoom misol / monthly Zoom fee INV136580067 | £52.79 | Ar-lein | 4 |
| 11.03.22 | Zoe Pritchard (Clerc) | Ad-daliad am ffi misol MS Office monthly fee repayment | £9.12 | Ar-lein | 5 |
| 14.02.22 | British Gas | Trydan Pafiliwn/ Pavillion electric 03/02/22-01/03/22 | £19.00 | DD | 6 |
| 01.03.22 | BT | Anfoneb misol ffon / Y we | £64.14 | DD | 7 |
| 15.03.22 | Natwest | Ffi bancio arlein / online banking fee | £20.00 | DD | 8 |
| 04.03.22 | Canolfan Gymdeithasol | Hurio ystafell Clwb Ieuenctid Ion / Youth club room hire Jan inv1352 | £120.00 | Ar-lein | 9 |
| 01.03.22 | Gwyn Thomas (C&C) | Gwaith adnewyddu lloches Highgate Bus Stop renovation | £2,192.00 | Ar-lein | 10 |
| 14.02.22 | Glyn Lasarus Jones | Cyfieithu cyfarfodydd Chwefror / Feb Meeting translations | £42.00 | Ar-lein | 11 |
| 28.10.21 | Com Laude | Ffi cofrestru blynyddol gwefan / website annual hosting charges | £45.17 | Ar-lein | 12 |
| 13.01.22 | Huws Gray | Deunydd amrywiol / various items | £18.30 | Ar-lein | 13 |
| 01.02.22 | Huws Gray | Deunydd Lloches Bws Highgate Bus Stop materials | £1,505.08 | Ar-lein | 14 |
| 04.03.22 | P.Helen Jones | Ymweliadau parc misol / Monthly park checks | £800.63 | Ar-lein | 15 |
| 07.03.22 | Un Llais Cymru | Cwrs Effective staff management - Cyng R.Roberts | £30.00 | Ar-lein | 16 |
| 07.03.22 | Canolfan Gymdeithasol | Hurio ystafell Te pnawn Dydd Gwyl Dewi inv1353 | £40.00 | Ar-lein | 17 |
| 07.03.22 | Canolfan Gymdeithasol | Hurio ystafell seremoni Ysgoloriaeth Patagonia room hire | £30.00 | Ar-lein | 18 |
| 07.03.22 | Mr Flag | Fflag Ukraine | £48.72 | Ar-lein | 19 |
| 23.02.22 | Neuadd Ffestiniog | Hurio ystafell clwb ieuenctid Chwef / Feb youth club room hire | £60.00 | Ar-lein | 20 |
| 03.03.22 | Defib Store Ltd | Pads newydd I defib 5 Stryd Fawr / 5 High Street Defib pads | £292.80 | Ar-lein | 21 |
| 24.02.22 | Viking Ltd | Toners printer / printer toners | £216.37 | Ar-lein | 22 |
| 09.03.22 | Ifan Williams | Torri llwybrau 21-22 Footpath cutting | £6,420.00 | Ar-lein | 23 |
| 10.03.22 | Mr John Evans | Adroddiad Cerddwr Llwybrau 2021-22 Public Footpath Report | £900.00 | Ar-lein | 24 |
| | | | | | |
| | | **Cyfanswm / Total** | **£ 14,559.65** | | |
| ARIAN I MEWN / INCOME | | | | | |
| 04.03.22 | Parc Cenedlaethol Eryri | Taliad grant I mewn I cylch camu Bryn Coed / Grant payment in | £500 | | |
| | | | **£ 500.00** | | |

PENDERFYNIAD:
Cyflwynwyd yr anfonebau canlynol yn funud olaf:
Y Gorlan – te prynhawn Dydd Gwyl Dewi - £290.
Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc dalu'r uchod.

11280/03/22 9. <u>CYFRIFON MISOL Y CYNGOR</u>

9 March 2022 (2021-2022)

## Cyngor Tref Ffestiniog

Prepared by: ______________________ Date: __________

*Name and Role (Clerk/RFO etc)*

Approved by: ______________________ Date: __________

*Name and Role (RFO/Chair of Finance etc)*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Bank Reconciliation at 09/03/2022** | | | |
| | Cash in Hand 01/04/2021 | | | 156,440.93 |
| | **ADD**<br>Receipts 01/04/2021 - 09/03/2022 | | | 242,684.92 |
| | | | | 399,125.85 |
| | **SUBTRACT**<br>Payments 01/04/2021 - 09/03/2022 | | | 163,972.82 |
| **A** | **Cash in Hand 09/03/2022**<br>(per Cash Book) | | | **235,153.03** |
| | Cash in hand per Bank Statements | | | |
| | Cash | 14/05/2021 | 0.00 | |
| | 3 NatWest Capital Reserve 12342: | 28/02/2022 | 67,593.87 | |
| | 2 NatWest Reserve 12339792 | 08/03/2022 | 0.15 | |
| | 1 NatWest Cyfredol/Current 12339: | 21/02/2022 | 168,348.13 | |
| | | | | **235,942.15** |
| | Less unpresented payments | | | 809.12 |
| | | | | 235,133.03 |
| | Plus unpresented receipts | | | 20.00 |
| **B** | **Adjusted Bank Balance** | | | **235,153.03** |
| | **A = B Checks out OK** | | | |

9 March 2022 (2021-2022)

## Cyngor Tref Ffestiniog
### Summary of Receipts and Payments
**Summary - Cost Centres Only**

| Cost Centre | Receipts | | | Payments | | | Net Position |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Budgeted | Actual | Variance | Budgeted | Actual | Variance | +/- Under/over spend |
| 01 Cyflogau / Salaries | | 410.00 | 410.00 (41000% | 77,129.00 | 67,110.96 | 10,018.04 (12%) | 10,428.04 |
| 02 Cyffredin / General | | | 0.00 (N/A) | 17,490.00 | 10,895.57 | 6,594.43 (37%) | 6,594.43 |
| 03 Adran 137 Section | | | 0.00 (N/A) | 2,000.00 | | 2,000.00 (100%) | 2,000.00 |
| 03a Cyfraniadau / Donations | | 500.00 | 500.00 (50000% | 10,150.00 | 7,361.20 | 2,788.80 (27%) | 3,288.80 |
| 04 Llwybrau / Footpaths | | | 0.00 (N/A) | 6,900.00 | 900.00 | 6,000.00 (86%) | 6,000.00 |
| 05 Nadolig / Christmas | | | 0.00 (N/A) | 15,850.00 | 6,927.05 | 8,922.95 (56%) | 8,922.95 |
| 06 Mwynderau/Amenities | | 2,136.22 | 2,136.22 (213622 | 42,150.00 | 18,211.84 | 23,938.16 (56%) | 26,074.38 |
| 07 Caeau Chwarae / Playing Fields | | 459.83 | 459.83 (45983% | 50,211.00 | 33,204.16 | 17,006.84 (33%) | 17,466.67 |
| 08 Incwm / Income | | 8,098.87 | 8,098.87 (809887 | | | 0.00 (N/A) | 8,098.87 |
| 09 Aelodau / Members | | | 0.00 (N/A) | 10,350.00 | 99.98 | 10,250.02 (99%) | 10,250.02 |
| 10 Yswiriant, Archwilio, Hybu / Insu | | | 0.00 (N/A) | 7,050.00 | 5,085.64 | 1,964.36 (27%) | 1,964.36 |
| 11 Llochesi Bws / Bus Shelters | | | 0.00 (N/A) | 6,400.00 | 4,941.64 | 1,458.36 (22%) | 1,458.36 |
| 12 Praesept / Precept | 230,000.00 | 230,000.00 | 0.00 (N/A) | | | 0.00 (N/A) | 0.00 |
| Gwyl Haf | | | 0.00 (N/A) | | | 0.00 (N/A) | 0.00 |
| Suspense Account | | 1,080.00 | 1,080.00 (108000 | | 1,080.00 | -1,080.00 (-10800 | 0.00 |
| **NET TOTAL** | **230,000.00** | **242,684.92** | **12,684.92 (5%)** | **245,680.00** | **155,818.04** | **89,861.96 (36%)** | **15** |

| | Receipts | Payments |
|---|---|---|
| **Total for ALL Cost Centres** | 242,684.92 | 155,818.04 |
| **V.A.T.** | | 8,154.78 |
| **GROSS TOTAL** | **242,684.92** | **163,972.82** |

PENDERFYNIAD: I dderbyn y cyfrifon.

**CEISIADAU ARIANNOL**

**11281/03/22 10. Eisteddfod Gerddorol Rhyngwladol Llangollen.**

**PENDERFYNIAD: Cynnig dim i'r ymgeiswyr.**

**11282/03/22 11. Derbyn a chadarnhau Argymhellion Pwyllgor Mwynderau ar yr 21ain o Chwefror, 2022.**

PENDERFYNIAD: Derbyn a Chadarnhau'r Argymhellion gyda'r Cynghorydd Rory Francis yn cynnig a'r Cynghorydd Alun Jones yn eilio.

**11283/03/22 12. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafod ceisiadau sydd i law a derbyn penderfyniadau Awdurdodau Cynllunio.

RHIF Y CAIS: NP5/59/511J
Lleoliad: Tir i gefn Penrhiw, Pantllwyd, Llan Ffestiniog. LL41 4PS
Disgrifiad: Manylion draenio er mwyn cysylltu i'r prif carthffos presennol yn lle i'r uned trîn carthion a ganiatawyd o dan cais cynllunio NP5/59/511A

PENDEFYNIAD: Cefnogi'r Cais.

CEISIADAU WEDI DERBYN PENDERFYNIAD FESUL AWDURDOD CYNLLUNIO

**CYNGOR GWYNEDD:**

| Rhif Cais / Application No | Lleoliad / Location | Disgrifiad / Description | Ward | Penderfyniad / Decision |
|---|---|---|---|---|
| C21/1063/03/LL | The Little Bookshop, 1 Ffordd Newydd, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3TU | Newid defnydd o gyn siop i uned wyliau<br>Change of use from former shop to holiday let | Bowydd & Rhiw | Gwrthodwyd.<br><br>Refused. |

**PARC CENEDLAETHOL ERYRI:**

| Rhif Cais / Application No | Lleoliad / Location | Disgrifiad / Description | Ward | Penderfyniad / Decision |
|---|---|---|---|---|
| DIM / NONE | | | | |

**PENDERFYNIAD: I dderbyn yr wybodaeth**

**DATBLYGIADAU YN YR ARDAL**

**IECHYD**

**11284/03/22 13. <u>Iechyd</u>**

Dim i'w drafod.

**Y CYNGOR TREF**

**11285/03/22 14. <u>ADRODDIAD STAFF Y CYNGOR TREF.</u>**

- Y Cyngor Tref wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais i'r Gronfa Cymunedau Mentrus, er mwyn cynnal gweithdai yn yr ardal ar y pwnc 'Safle Treftadaeth y Byd – Be Nesa?'. Y Cyngor i benodi hwylusydd yn Pwyllgor Mwynderau.
- Cytundeb lês y Caffi wedi ei arwyddo heddiw gan y tenant newydd, Dylan Williams. Mi fydd yn cychwyn ei gyfrifoldeb o agor a chau giatiau'r parc Dydd Llun nesaf, yr 21ain o Fawrth, 2022.

COPI DRAFFT

- Cyfarfod gwasanaethau iechyd meddwl i bobl ifanc Bro Ffestiniog wedi ei drefnu ar gyfer Dydd Mawrth, yr 22ain o Fawrth, 2022. Y Clerc wedi gwahodd nifer o asiantaethau, gyda 20 gwasanaeth gwahanol wedi ymateb.
- Cadarnhawyd gan y Clerc fod y ffurflenni lwfansau ar eu ffordd i'r Cynghorwyr, ac eu hatgoffa bod angen cysylltu'n ysgrifenedig gyda'r Clerc i wrthod lwfans eleni.
- Rhoddodd y Clerc hanes yr Te Prynhawn Dydd Gŵyl Ddewi a gynhaliwyd ar yr 1af o Fawrth, lle cafwyd te prynhawn i 19 o unigolion hŷn y gymuned. Bu iddynt hefyd ddiolch yn fawr i'r telynwr Dylan Roberts am roi ei amser yn wirfoddol i ddiddanu'r gynulleidfa, ac am help eraill wrth drefnu'r digwyddiad.
- Nodwyd fod Seremoni gwobrwyo Ysgoloriaeth Patagonia wedi ei gynnal noswaith y 1af o Fawrth. Bu ddau ymgeisydd, ac yr enillydd oedd Elin Roberts.
- Cadarnhaodd y Clerc fod y cais grant am swyddog stryd fawr a drafodwyd yn y Cyfarfod Arferol ddiwethaf wedi symud ymlaen yn sgil diffyg amser. Mae'r cais wedi ei gyflwyno yn enw Cwmni Bro Ffestiniog. Angen aros i weld os bydd yn llwyddiannus a gweld pa gyfle sydd i'r Cyngor Tref gydweithio gyda'r swyddog.
- Bu i'r Clerc gyfarfod Cynghorydd Alun Jones a Mark Thomas yn sydyn ar safle Lloches Bws Manod er mwyn asesu'r lleoliad. Bu iddynt gytuno rhoi'r lloches yn yr hen leoliad fel o'r blaen. Mi fydd y Clerc yn cydlynu hyn rwan gyda Adran Priffyrdd, Llwyodraeth Cymru a chwmni yswiriant y Cyngor Tref.
- Nododd y Clerc fod pecyn cofrestru er mwyn sefyll fel Cynghorydd Tref yn yr etholiad ar y 5ed o Fai wedi cyrraedd y swyddfa os fydd unrhyw Gynghorydd angen copi caled.

**PENDERFYNIAD**: I dderbyn y wybodaeth gyda'r Cynghorydd Bedwyr Gwilym eisiau cofnodi diolch y Cyngor Tref i'r Clerc a'r Dirprwy Glerc am eu gwaith yn trefnu'r Te Prynhawn i aelodau hŷn y gymuned, rhywbeth nad ydi'r Cyngor Tref wedi ei wneud o'r blaen.

**<u>Noder fod y Cynghorydd Glyn Daniels ymuno â'r cyfarfod ar y pwynt yma.</u>**

**11286/03/22** **15<u>. Ymgynghoriad ar Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: Canllawiau Statudol Drafft ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref</u>**

Nododd y Clerc fod y dyddiad ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar yr 17eg o Fawrth, 2022. Yn rhan o becyn cefndirol y cyfarfod, roedd y Clerc wedi cynnwys ei ymatebion hi ar ffurf drafft.

**PENDERFYNIAD**: Cytuniwyd i'r Clerc gyflwyno'r ymateb drafft bu iddi baratoi i Lywodraeth Cymru fel ymateb swyddogol Cyngor Tref Ffestiniog.

**11287/03/22** **<u>16.</u> <u>Lefel cyflogaeth terfynol y staff ar gyfer 2021/22 – canllawiau NALC.</u>**

Derbyniwyd gopi o'r lefelau cyflog newydd o'r gytundeb cyflogi. Nododd y Clerc bydd yr ol-daliad o'r 1af o Ebrill, 2021 yn cael ei gynnwys yn cyflog mis Mawrth y staff.

COPI DRAFFT

**PENDERFYNIAD**: Derbyn yr wybodaeth.

**11288/03/22** **17. Ystyried adnewyddu aelodaeth o Un Llais Cymru ar gyfer 2022-23.**
Bu i Gynghorydd Alun Jones ofyn am barn y Clerc o ran gwerth aelodaeth Un Llais Cymru. Bu i'r Clerc adrodd bod yr aelodaeth yn ddefnyddiol tu hwnt, gan eu bod yn canolbwyntio ar ddeddfau yma yng Nghymru. Mae'r Clerc a'r Dirprwy Glerc yn defnyddio adnoddau Un Llais Cymru yn aml, yn derbyn diweddariadau newyddion drwy bwletin a gyda mynediad at ymgynghorwyr ar materion di-ri.

**PENDERFYNIAD**: Cytuniwyd i adnewyddu aelodau Cyngor Tref Ffestiniog gydag Un Llais Cymru ar gyfer 2022-2023.

**11289/03/22** **18. Ystyried enwebu aelod o Gyngor Tref Ffestiniog fel Cadeirydd newydd ar gyfer y grwp 'PubWatch'.**

**PENDERFYNIAD**: Yn sgil rhai Cynghorwyr yn absennol yn y cyfarfod yma, penderfynwyd i ohirio'r penderfyniad tan Cyfarfod Blynyddol yn mis Mai 2022.

**11290/03/22** **19. Cymeradwyo Cynllun Cyhoeddi Cyngor Tref Ffestiniog – yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.**

Nododd y Clerc nad oedd y Cyngor Tref efo Cynllun Cyhoeddi mewn lle, sydd yn ofyniad yn ol Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

**PENDERFYNIAD**: I dderbyn y Cynllun cyhoeddi a gyflwynwyd yn y pecyn dogfennau cyfarfod. I adolygu'r Cynllun yn y Pwyllgor Rheoleiddio nesaf.

**MATERION YN CODI**

**11291/03/22** **20. Caeau Chwarae**

Nododd y Cynghorydd Glyn Daniels fod trigolyn wedi cysylltu yn pryderu am y mwd oedd ar y sleid, ar yr offer chwarae newydd sydd wedi'i gwblhau yn y Parc. Trafodwyd fod y Cyngor Tref wedi penderfynu i osod matiau gwair o dan yr offer yma, er mwyn annog i gwair dyfu a'r gobaith o leihau costau cynnal a chadw i'r Cyngor yn y dyfodol wrth orfod newid yr 'wet-pour'.
Cytunodd y Cynghorydd Mark Thomas i lanhau'r sleid yn sydyn.

**PENDERFYNIAD**: I dderbyn yr wybodaeth.

**MATERION ER GWYBODAETH**

**11292/03/22** **21 Cyfle i Gynghorwyr adrodd yn ôl i'r Cyngor yn dilyn eu presenoldeb mewn pwyllgorau allanol.**

Dim i'w adrodd.

COPI DRAFFT

**11293/03/22 22. NEWYDDION O GYNGOR GWYNEDD**

Nododd y Cynghorydd Glyn Daniels fod treth Cyngor Gwynedd yn cynyddu 2.95%.

Bu hefyd yn nodi fod Cadeirydd Cyngor Gwynedd yn cydlynu llythyr i Lywodraeth y DU yn erfyn arnynt i groesawu mwy o ffoaduriaid yr Ukraine.

**11294/03/22 23. NEWYDDION ARALL**

Dim i'w drafod

**11295/03/22 24. GOHEBIAETH**

a) Adroddiad Blynyddol 2022 Panel Annibynol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – er gwybodaeth yn unig. Dod i rym 09/05/22.

PENDERFYNIAD: Derbyn yr wybodaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00yh

CADEIRYDD

**CYNHELIR CYFARFOD ARFEROL NESAF Y CYNGOR TREF**
**NOS LUN 11eg o EBRILL 2022**
**AR LEIN am 7.00 y.h.**

**CEIR RHAGLEN AR GYFER CYFARFOD ARFEROL 11eg o EBRILL 2022**
**AR YR 4ydd o EBRILL 2022**

COPI DRAFFT